Y Prosiect Byw'n Ddi-fwg:
Gwerthusiad o 'Gam 1' (Y cam 'Peilot')

Adroddiad gan Atal Tân Cymru – Awst 2009

Kim Smith, Kate Slowinski a Richard Hall
Atal Tân Cymru / Firebrake Wales
Awst 2009

Cynnwys

Adran	*Pwnc*	*Tud.*
1.	**Y Cefndir a'r Amcanion**	3
1.1	Y Bartneriaeth	3
1.2	Cefndir y Prosiect	3
1.3	Nod y Prosiect	4
1.4	Amcanion y Prosiect	4
1.5	Cyflwyno'r Prosiect Byw'n Ddi-fwg	5
1.6	Amserlen ar gyfer Cyflwyno'r Prosiect Peilot	6
1.7	Cyflwyno'r Prosiect - y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y Cam Peilot	6
2.	**Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil**	7
2.1	Amcanion yr Ymchwil	7
2.2	Methodoleg yr Ymchwil	7
3.	**Canfyddiadau**	8
3.1	Faint oedd yn cofio derbyn y Pecyn?	8
3.2	Faint oedd wedi darllen y Pecyn?	9
3.3	Pa mor ddefnyddiol oedd y Pecyn?	9
3.4	A gynyddwyd yr Ymwybyddiaeth?	10
3.5	Newidiadau mewn ymddygiad ysmygu	10
3.6	Bwriad i wneud cartrefi'n Ddi-fwg	10
3.7	Cwestiynau Ychwanegol	10
4.	**Casgliadau**	11
5.	**Argymhellion**	12
Atodiad	**Holiadur yr Arolwg**	

Carai partneriaid y prosiect fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r tîm yn Beaufort a Dr Mike Harmer yn Llywodraeth y Cynulliad.

1. Y Cefndir a'r Amcanion

1.1 Y Bartneriaeth

ASH Cymru – cafodd ei sefydlu yn 1976 a dyma'r mudiad gwirfoddol blaenllaw yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â'r defnydd o dybaco. Prif nod ASH Cymru yw cael gostyngiad yn y problemau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dybaco, ac yn y pendraw, gael gwared arnynt. Mae ASH Cymru yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys cydlynu Fforwm Rheoli Tybaco Cymru, sy'n cael ei reoli ganddo fel modd i ddwyn ynghyd y gwaith amrywiol sy'n digwydd yng Nghymru ym maes rheoli tybaco.

Atal Tân Cymru - elusen gofrestredig sydd â'r nod o ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân, a hynny trwy godi ymwybyddiaeth am y peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hyrwyddo ymchwil ac arferion ym maes atal tanau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac annog cydweithio rhwng sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn gwneud Cymru'n wlad fwy diogel.

Mae Atal Tân yn cydweithio'n agos â'r **Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** er mwyn cefnogi mentrau diogelwch tân trwy Gymru gyfan, hyrwyddo ffordd gyson i fynd i'r afael â diogelwch tân, ac annog gweithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau. Bydd swyddogion arweiniol Diogelwch Tân Cymunedol yn y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyfrannu at gyfeiriad strategol Atal Tân trwy gynrychiolaeth ar "Grŵp Strategaeth" yr elusen. Mae'r Grŵp Strategaeth wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso'r prosiect hwn.

Cefnogwyd y prosiect hefyd trwy grant o "Gronfa Syniadau Newydd" Llywodraeth y Cynulliad sy'n cyfrannu at gostau gwerthuso'r prosiect.

Caiff y bartneriaeth Byw'n Ddi-fwg ei harwain gan **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth**, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cydweithio a chydweithredu rhwng pob partner.

Grŵp Llywio'r Prosiect, yn cynnwys staff o Atal Tân ac ASH Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r prosiect o ddydd i ddydd.

1.2 Cefndir y Prosiect

Mae dull y Cartrefi Di-fwg wedi ei roi ar waith mewn sawl ardal yn Lloegr fel ffordd i leihau'r peryglon y mae ysmygu'n ei achosi i iechyd, plant a'r amgylchedd. Gan fwyaf, gan gyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwlad y cafodd y prosiectau eu harwain, a chael eu cyflwyno trwy ymarferwyr yn gweithio yn y gymuned. Fodd bynnag, ni chafwyd mentrau o'r fath yng Nghymru, ac roedd cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ac elusennau iechyd wedi wynebu heriau o ran ymestyn y fenter yma hefyd.

Yn dilyn trafodaeth rhwng Prif Weithredwyr Atal Tân Cymru a ASH Cymru, daeth y syniad am brosiect ehangach, yn mynd i'r afael â pheryglon ysmygu yn y cartref i iechyd, plant a'r amgylchedd wedi ei gyfuno â mynd i'r afael â pheryglon marw neu gael anaf oherwydd tanau yn y cartref o ganlyniad i ysmygu. Y gobaith oedd y byddai dull mwy holistaidd a chydweithredol yn arwain at y manteision canlynol:

- **Dull Gwahanol.** Efallai y byddai model “lleihau risg”, sy’n annog dewisiadau cytbwys o ran ymddygiad ysmygu, yn fwy derbyniol i bob partner na phrosiect sydd â’r prif nod o hybu rhoi’r gorau i ysmygu.

- **Mater yn ymwneud â mwy na dim ond Iechyd.** Efallai y byddai pobl sy’n llai pryderus am effeithiau “tymor hir” ysmygu ar iechyd neu’r amgylchedd yn pryderu fwy, ac yn fwy tebygol o newid ymddygiad ysmygu, petai hynny’n cael ei gysylltu â’r perygl o farw neu gael anaf mewn tân yn y cartref.

- **Targedu cartrefi lle mae’n bendant fod pobl yn ysmygu ynddynt.** Yn wahanol i’r prosiectau Cartrefi Di-fwg yn Lloegr, byddai’r fenter hon yn targedu gwybodaeth i gartrefi lle mae’n bendant fod un neu ragor o ysmygwyr yn byw.

- **Cost-effeithiol.** Byddai’r prosiect yn gost-effeithiol gan y byddai’n defnyddio rhai deunyddiau sydd eisioes ar gael i’r cyhoedd, ac na fyddai angen buddsoddiad ychwanegol o ran arian na staff gan y Gwasanaethau Tân ac Achub na’r Gwasanaethau Iechyd.

- **Gwerthusiad Cadarn.** Byddai’r prosiect yn agored i fonitro a gwerthusiad cadarn er mwyn adnabod “beth sy’n gweithio” a nodi’r hyn a ddysgir, a hynny er mwyn goleuo datblygiad y prosiect yn y dyfodol a mentrau iechyd a diogelwch cymunedol eraill yng Nghymru a thu hwnt.

- **“Creu’r Cysylltiadau”.** Mae rhaglen “Creu’r Cysylltiadau” gan Lywodraeth y Cynulliad yn cefnogi’r gwaith o ddwyn ynghyd sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, ac ar draws meysydd iechyd a diogelwch cymunedol, a hynny er mwyn cyrraedd nodau cyffredin.

1.3 Nod y Prosiect

Nod trosfwaol y Prosiect Byw’n Ddi-fwg yng Nghymru yw lleihau’r peryglon a achosir gan ysmygu yn y cartref mewn perthynas ag:

• Iechyd • Yr Amgylchedd • Plant ac Anifeiliaid Anwes • Diogelwch Tân

1.4 Amcanion y Prosiect

- Adnabod a thargedu ymyriad mewn perthynas â chartrefi yng Nghymru lle mae pobl yn ysmygu,

- Darparu gwybodaeth ynglŷn â lleihau’r peryglon, ymysg y cartrefi lle mae pobl yn ysmygu, a

- Monitro a gwerthuso unrhyw newidiadau mewn ymddygiad mewn perthynas ag ysmygu yn y cartref, a hynny o ganlyniad i’r prosiect/ymyriad.

1.5 Cyflwyno'r Prosiect Byw'n Ddi-fwg

Rhagwelid y byddai'r prosiect yn cael ei gyflwyno "fesul cam" yn ardaloedd y tri Gwasanaeth, gan ddechrau â cham 'peilot' dros 3 - 6 mis yn ardal Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn Ionawr 2009. Byddai'r hyn a ddysgid o ganlyniad i'r cam peilot yn cael ei ddefnyddio i oleuo datblygiad y prosiect pan fyddai'n cael ei ymestyn i rannau eraill o Gymru yn hwyrach yn 2009 ac yn nechrau 2010.

Methodoleg arfaethedig y prosiect oedd fel a ganlyn:

- **Adnabod Cyfranogwyr Posib.** Wrth i'r Gwasanaethau Tân ac Achub gynnal Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, byddai'r Gwasanaeth yn adnabod y cartrefi hynny lle mae un neu ragor o ysmygwyr yn byw a/neu lle mae pobl yn ysmygu yn y cartref.

- **Cael caniatâd i gymryd rhan yn y Prosiect.** Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn gofyn i gynrychiolydd o'r cartref (y sawl y maent yn cynnal yr Archwiliad gydag ef/hi) a ydynt yn fodlon rhannu eu manylion cyswllt "gyda sefydliadau dielw eraill a allai ddarparu rhagor o wybodaeth am iechyd a diogelwch, a chefnogi a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir". Mae'r cydsyniad hwn yn cael ei gofnodi trwy ymateb cadarnhaol i'r datganiad hwn - sef blwch ticio ar ffurflen yr Archwiliad.

- **Rhannu Data ag Atal Tân.** Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn darparu cronfa ddata i Atal Tân, sy'n cynnwys manylion y cartrefi lle mae pobl yn ysmygu ac sydd wedi rhoi caniatâd. Dylai'r gronfa ddata, o leiaf, gynnwys enw cyswllt, cyfeiriad a rhif ffôn ar gyfer pob cartref sy'n 'gymwys'.

- **Anfon y Pecynnau Gwybodaeth allan.** Yna, bydd Atal Tân yn postio 'pecyn' Byw'n Ddi-fwg i'r holl unigolion a enwir ar y gronfa ddata. Dylid anfon y pecyn o fewn mis i ddyddiad yr Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref.

- **Cynnwys y Pecyn.** Mae'r pecyn yn cynnwys taflenni yn cynnig gwybodaeth am y peryglon i iechyd (o ganlyniad i ysmygu, ond yn arbennig o ganlyniad i fwg ail-law) a'r perygl o dân. Mae'r pecyn hefyd i gynnwys cyngor ymarferol, awgrymiadau a chefnogaeth i bobl i'w cynorthwyo i wneud eu cartref yn 'Ddi-fwg' (e.e. trwy drefnu lle ysmygu y tu allan i'w cartref, rhoi ambarél wrth y drws cefn ayyb).

- **Arolwg Dilynol.** Y prosiect i gael ei fonitro a'i werthuso er mwyn asesu'r cynnydd yn erbyn y canlyniadau a ddymunid. Byddai hyn yn digwydd ar ffurf galwadau ffôn gyda sampl o gartrefi a dderbyniodd y pecyn: A oeddent yn cofio derbyn y pecyn? Beth oeddent yn ei gofio o'i gynnwys? A oedd wedi codi eu hymwybyddiaeth neu wedi eu cymell i newid eu hymddygiad? Os do – yna sut? Os naddo – pam ddim?

- **Casglu, Dadansoddi a Rhannu'r Canfyddiadau.** Adrodd a lledaenu canlyniadau'r monitro a'r gwerthusiad.

1.6 Amserlen ar gyfer Cyflwyno'r Prosiect Peilot

	Ch1 2009			Ch2 2009			Ch3 2009		
	Ion.	Chwef.	Maw.	Ebr.	Mai	Meh.	Gorff.	Awst	Medi
Casglu Data'r Archwiliadau a'u hanfon i Atal Tân									
Anfon y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg i gartrefi									
Cynnal arolwg gwerthuso Cam 1									
Rhyddhau adroddiad gwerthuso Cam 1									

1.7 Cyflwyno'r Prosiect - y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y Cam Peilot

Codod nifer o faterion wrth gynllunio a gweithredu'r cam peilot y bydd angen eu hystyried wrth ddatblygu camau nesaf y prosiect, ac o ran argymhellion ar gyfer dyfodol y fenter. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Graddfa/ Maint Arfaethedig y Prosiect .** I ddechrau, disgwylid y byddai rhai cannoedd o gartrefi a adnabuwyd yn derbyn y pecyn bob mis, ond dim ond 102 a adnabuwyd yn ystod y cam peilot. O gael amcanestyniad o nifer y cyfranogwyr posib, yn seiliedig ar ddata'r Archwiliadau a gynhaliwyd dros gyfnod tebyg, gellid cefnogi'r defnydd o adnoddau ariannol, gwybodaeth a staffio yn fwy effeithiol.

- **Rhannu Data.** Dechreuodd Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin ar gronfa ddata ar gyfer casglu, rheoli ac adrodd ynghylch gwybodaeth yn ymwneud ag Archwiliadau tua'r un pryd ag y cychwynnodd y prosiect hwn. Yn anffodus, roedd hynny'n ei gwneud yn anodd ar adegau i gael mynediad at ddata cyflawn, cyson ac amserol ynglŷn â chartrefi lle'r oedd ysmygwyr wedi cael eu hadnabod er mwyn iddynt fod yn rhan o'r prosiect.

- **Eglurder y Prosiect ac 'Adran Cydsyniad' newydd**. Cafwyd sïon yn awgrymu bod dealltwriaeth o'r prosiect yn amrywio ymysg staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac fe allai hynny fod wedi effeithio ar gysondeb wrth gasglu manylion cyswllt cartrefi lle mae pobl yn ysmygu, cael caniatâd deiliad y cartref, cofnodi ac adrodd ynghylch gwybodaeth i Atal Tân.

- **Oedi wrth gynnal y Gwerthusiad.** Oherwydd nifer gymharol fechan y cartrefi a adnabuwyd yng ngham peilot y prosiect, penderfynwyd gohirio'r broses werthuso hyd nes y byddai 100 o gartrefi, o leiaf, wedi derbyn pecynnau gwybodaeth. Golygai hyn fod cyfnod hwy na'r disgwyl rhwng anfon y pecynnau Byw'n Ddi-fwg a chysylltu â chartrefi i gael adborth. Gallai'r oedi hwn fod wedi effeithio ar nifer y bobl y gellid eu cyrraedd yn y gwerthusiad (h.y. wedi symud efallai neu newid rif ffôn), ac i ba raddau yr oeddent yn cofio'r wybodaeth yr oeddent wedi ei derbyn. Fodd bynnag, roedd y nifer gymharol fechan yn golygu bod modd ceisio cysylltu â *phob* cartref oedd wedi cael pecyn, at ddiben gwerthuso'r cam peilot.

- **Manteision Astudiaeth Beilot.** Mae'r ffaith fod nifer o faterion pwysig wedi eu hadnabod, o ran cyflwyno'r prosiect a chynnal y gwerthusiad, yn dangos gwerth cynnal cam peilot o'r prosiect, a hynny er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno a'i werthuso'n fwyaf effeithiol ar sail ehangach.

2. Amcanion a Methodoleg yr Ymchwil

2.1 Amcanion yr Ymchwil

Fel y crybwyllwyd eisoes, un nod o gynnal arolwg gwerthuso'r 'peilot' oedd profi holiadur a methodoleg yr ymchwil. Dyluniwyd yr holiadur gyda mewnbwn gan ASH Cymru, Atal Tân a Dr Mike Harmer (Uned Ymchwil a Gwybodaeth, yr Adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth y Cynulliad).

Pan fydd y prosiect yn llwyr weithredol (h.y. pan fydd pob Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhan ac y bydd ein cronfa ddata o gartrefi cymwys cryn lawer yn fwy), bydd y gwaith gwerthuso'n cael ei wneud ar adegau rheolaidd (e.e. o leiaf bob 3 mis, neu bob mis neu ddau fis os oes modd).

Ail nod yr arolwg hwn oedd gwerthuso i ba raddau yr oedd yr wybodaeth Byw'n Ddi-fwg a anfonwyd wedi cael ei gofio, a faint o effaith yr oedd wedi ei gael, yn enwedig o safbwynt:

- Sefydlu a oedd y rhai a dderbyniodd y pecyn yn cofio ei dderbyn, p'un ai yr oeddent wedi ei ddarllen, a'r rhesymau a roddwyd am beidio â'i ddarllen (lle bo hynny'n berthnasol).

- Gweld beth roedd y rhai a dderbyniodd y pecyn yn ei gofio am y neges a'r cynnwys, a'r atebion yn cael eu rhoi heb gael eu cymell.

- Mesur pa mor ddefnyddiol y cawsant yr wybodaeth, a'r rhesymau dros hynny.

- Gweld a oedd ymddygiad ysmygu yn y cartref wedi newid o ganlyniad i ddarllen yr wybodaeth oedd yn y pecyn, a pha newidiadau a wnaed.

- Mesur a oedd ymwybyddiaeth o'r materion yn ymwneud ag ysmygu yn y cartref wedi cynyddu o ganlyniad i ddarllen yr wybodaeth.

- Sefydlu a oedd y rhai a dderbyniodd y pecyn wedi gwneud, neu'n bwriadu gwneud, eu cartref yn 'Ddi-fwg', a phennu'r prif ffactorau a gymhellodd hynny.

2.2 Methodoleg yr Ymchwil

- Darparwyd cronfa ddata o 102 o enwau a manylion cyswllt gan Atal Tân Cymru i asiantaeth ymchwil allanol (sef cwmni ymchwil Beaufort), at ddiben yr ymchwil.

- Cyn comisiynu Beaufort i gynnal yr arolwg, gwiriodd Atal Tân fod Beaufort yn cydymffurfio â gofynion Diogelu Data Atal Tân ei hun a safonau Polisi Preifatrwydd Atal Tân, ac roedd yn fodlon â hynny.

- Roedd y 102 o enwau yn y gronfa ddata i gyd yn bobl a oedd wedi derbyn Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref (gan Wasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn ystod Chwefror a Mawrth 2009), ac ar adeg yr Archwiliad, sefydlwyd bod ysmygwr yn byw yn y tŷ. Roedd pob un o'r bobl hyn wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu rhannu, ac yna wedi cael Pecyn Byw'n Ddi-fwg trwy'r post.

- Cynhaliwyd y cyfweliadau dros y ffôn gan Beaufort gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweld ar y ffôn trwy gymorth cyfrifiadur).

- Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng Gorffennaf 16eg a 22ain 2009.

Yn hytrach na samplo, roedd yr arolwg yn golygu cysylltu â **phob un** o'r rhai â'u henwau yn y gronfa ddata a ddarparwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin (ac a oedd wedi darparu rhif ffôn).

Cafodd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod **heb** ddarllen y Pecyn Byw'n Ddi-fwg eu sgrinio allan o'r cyfweliad ar y dechrau.

3. Canfyddiadau

Fel y nodwyd, mabwysiadodd y prosiect ddull 'cyfrifiad' ar gyfer yr arolwg, a oedd yn golygu ceisio cysylltu â **phob un** o'r 102 o unigolion a adnabuwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub fel rhai yn byw mewn cartrefi lle'r oedd pobl yn ysmygu ac wedi rhoi caniatâd i gysylltu â hwy. Gan fod nifer yr ymatebwyr yn gymharol fechan (dim ond y rhai a oedd wedi darllen yr wybodaeth Byw'n Ddi-fwg a gyfwelwyd), mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ystyried y goblygiadau i'r boblogaeth yn ehangach.

3.1 Faint oedd yn cofio derbyn y pecyn? Roedd traean y bobl yr anfonwyd y pecyn atynt yn cofio ei dderbyn. Cysylltwyd â thua thraean ohonynt ond nid oeddent yn gallu cofio derbyn y pecyn. Roedd traean arall yn rhai naill ai na lwyddwyd i gysylltu â hwy, neu'n rhai nad oedd yn dymuno cymryd rhan yn yr arolwg.



3.2 **Faint oedd wedi darllen cynnwys y pecyn?** O blith y rhai oedd yn cofio derbyn y pecyn (34), dywedodd **27 (79%)** eu bod wedi ei ddarllen. Y prif resymau a roddwyd dros beidio â'i ddarllen oedd 'rhy brysur/heb gael cyfle' a phobl yn meddwl nad oedd yn berthnasol iddynt hwy gan 'nad oeddent yn ysmygu rhyw lawer'.

Wedi darllen ai peidio (o blith y 34 a oedd yn cofio ei dderbyn)





Seiliedig ar: 34 o unigolion a ddywedodd eu bod yn cofio derbyn y pecyn

3.3 **Pa mor ddefnyddiol oedd y pecyn?** O blith y rheini oedd wedi darllen cynnwys y pecyn, dywedodd **92%** iddynt ei gael yn ddefnyddiol (59% 'yn ddefnyddiol iawn', 33% yn 'eithaf defnyddiol'). Ymhlith y sylwadau ynghylch pam yr oedd pobl wedi ei gael yn ddefnyddiol, roedd:

- *"Mae'n dda gwybod bod llefydd ar gael i'ch helpu pan fyddwch chi am roi'r gorau iddi".*
- *"Rhoddodd lawer o wybodaeth, ac yn gwneud ichi fod yn ymwybodol o'r peryglon".*
- *"Roedd yn ddefnyddiol gan fod fy mhlant yn rhoi pryd o dafod imi am ysmygu ac wedi gwneud imi ei ddarllen".*
- *"Rhoddodd fwy o gymhelliad imi".*

Fodd bynnag, mae ambell adborth a roddir yma yn awgrymu bod pobl yn drysu rhwng y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg a'r negeseuon a dderbyniwyd yn ystod yr Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref (neu'r taflenni a adawyd ar adeg yr Archwiliad), er enghraifft:

- *"Mae'n tynnu'ch sylw at ganlyniadau posib gorlwytho socedi plwg".*
- *"Doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r peryglon hyd nes iddynt gael eu hesbonio imi – synnwyr cyffredin fel rhoi dŵr yn y blwch llwch".*
- *"Mae'n agor eich llygaid i bethau na fyddech yn sylwi arnynt fel arfer, fel diogelwch peiriannau".*

3.4 **A gynyddwyd yr ymwybyddiaeth?** Honnodd mwyafrif y rhai a ymatebodd fod eu hymwybyddiaeth **wedi** cynyddu ymhob un o'r meysydd allweddol canlynol.



Felly, er enghraifft, dywedodd 67% o'r rhai a ddarllenodd y pecyn fod eu hymwybyddiaeth o sefydliadau sydd ar gael i gynorthwyo pobl i roi'r gorau i ysmygu wedi cynyddu. Fodd bynnag, ar adeg yr arolwg, dim ond 7% oedd wedi mynd ati i gysylltu ag un o'r sefydliadau hyn.

3.5 **Newidiadau mewn ymddygiad ysmygu.** Dywedodd tua **40%** o'r bobl a oedd wedi darllen y Pecyn Byw'n Ddi-fwg (11 allan o 27 o bobl) eu bod hwy (neu rywun arall yn eu cartref) wedi newid eu hymddygiad ysmygu – a hynny o ganlyniad uniongyrchol i ddarllen yr wybodaeth yn y pecyn. Roedd rhai o'r atebion, heb gael eu cymell, yn cyfeirio at newidiadau megis:

- *"Ysmygu llawer y tu fas pan nad oeddwn i'n gwneud hynny o'r blaen. Bydda i byth yn ysmygu lan lofft. Nawr, rwy'n rhoi dŵr yn y blwch llwch".*
- *"Mae'n gwneud imi fod yn siŵr nad ydw eisiau ysmygu rhagor".*
- *"Mae hi'n mynd mas i'r ardd i gael sigarét nawr".*
- *"Dydw i byth yn ysmygu i fyny'r grisiau".*

3.6 **Bwriad i wneud cartrefi'n Ddi-fwg.** Dywedodd tua thraean o'r rhai a ymatebodd a oedd wedi darllen y Pecyn Byw'n Ddi-fwg fod ganddynt gartrefi 'Di-fwg' **ar hyn o bryd**. Mynegodd traean arall fod ganddynt **fwriad i wneud eu cartref yn Ddi-fwg yn y dyfodol agos**. I'r bobl hyn, y prif gymhelliad dros fod eisiau gwneud eu cartref yn Ddi-fwg oedd iechyd eu plant.

3.7 **Cwestiynau ychwanegol.** Gofynnwyd nifer o gwestiynau ychwanegol yn rhan o'r arolwg. Fodd bynnag, nid yw dadansoddiad o'r cwestiynau hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd mai nifer cymharol fechan oedd yn rhan ohono.

Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys yn holiadur yr arolwg er mwyn darparu mwy o ddealltwriaeth o effaith y prosiect hwn. Byddwn yn gallu casglu'r ddealltwriaeth hon yn well pan fyddwn yn cynnal yr arolwg eto gyda sampl fwy.

4. Casgliadau

4.1 Y Cyfyngiadau a achosodd Maint y Cynllun Peilot.

Roedd nifer y cartrefi a dderbyniodd y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg yn y cam peilot gryn lawer yn is na'r disgwyl. At gyfanswm o 102 cartrefi yr anfonwyd y pecynnau a dim ond 71 o'r rhain y gellid cysylltu â hwy i gymryd rhan yn yr arolwg. Oherwydd mai nifer fechan a gymerodd ran yng ngham peilot y prosiect (102 o gartrefi) a'r arolwg ar raddfa gymharol fechan, dylid bod yn ofalus wrth edrych ar werthusiad o'r astudiaeth. Yn arbennig wrth geisio cyffredinoli canfyddiadau'r arolwg hwn i boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, mae'r arwyddion o'r arolwg hwn yn sicr yn galonogol, a bydd cam nesaf y prosiect yn gyfle i brofi'r dull gyda chriw llawer mwy o gyfranogwyr.

4.2 Manteision Dull Cydlynol yn ymwneud â Lleihau Risg.

Mae tystiolaeth eisoes yn dangos manteision Dull Cydlynol i leihau'r peryglon a achosir gan ysmygu yn y cartref i ysmygwyr, plant a phobl nad ydynt yn ysmygu yn hytrach na chanolbwyntio ar un agwedd ar y mater. [1] [2] Mae astudiaeth o agweddau at y perygl o dân yn awgrymu y gallai ysmygwyr fod heb lawn sylweddoli lefelau eu risg o dân ac y gallent elwa ar fentrau a allai fod yn gymorth iddynt reoli eu risgiau'n fwy effeithiol. [3] Gan fod rhai pobl rhwng dau feddwl am y negeseuon iechyd sy'n gysylltiedig ag ysmygu, mae Philips, et. al. yn casglu y gall darparu gwybodaeth am y peryglon ehangach a achosir gan ysmygu yn y cartref fod yn effeithiol er mwyn cael mwy o gartrefi di-fwg[4]

4.3 Awgrymiadau cynnar fod y Model <u>yn</u> Effeithiol.

Fel y soniwyd yn gynharach, er bod y nifer yn fechan, mae'r astudiaeth i'w gweld yn awgrymu bod y prosiect yn gwneud gwahaniaeth i wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau'n ymwneud ag ysmygu yn y cartref. Dywedodd tua ¼ y rhai a dderbyniodd y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg eu bod wedi eu darllen ac wedi cael yr wybodaeth yn ddefnyddiol. Hefyd, dywedodd tua **11%** o'r 102 ei bod **wedi newid eu hymddygiad ysmygu**, o ganlyniad i ddarllen y pecyn.

---

[1] Muller, T. 2007. *Breaking the Cycle of Children's Exposure to Tobacco Smoke.* Llundain: Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig.

[2] Thompson, G., Wilson, N. and Howden-Chapman, P. 2006. "Population Level Policy Options for Increasing the Prevalence of Smokefree Homes." *Journal of Epidemiology and Community Health.* Cyfrol 60, 298-304.

[3] Communities and Local Government. 2008. *Understanding People's Attitudes Towards Fire Risk – Fire Research Series 13/2008.* Llundain: Cymunedau a Llywodraeth Leol.

[4] Philips, R., Amos, A., Ritchie, D., Cunningham-Burley, S. and Martin, C. 2007 "Smoking In the Home After Smoke-Free Legislation in Scotland: Qualitative Study." *British Medical Journal.* Cyfrol 335, 553-557.

4.4 Pennu effaith y Pecyn Byw'n Ddi-fwg o'i gymharu â'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref.

Roedd yn amlwg o rai atebion i gwestiynau arolwg y cynllun peilot fod nifer fechan yn cofio elfennau o'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref a gawsant, yn ogystal â negeseuon a chynghorion y Pecyn Byw'n Ddi-fwg. Felly, nid oes modd bod yn bendant pa effaith yr oedd pob un o'r rhannau wedi ei chael, ac felly pa gyfraniad a wnaethant i ganlyniad gwerthusiad y peilot. Efallai'n wir fod y bobl oedd wedi gwneud cais am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, mewn rhyw ffordd, yn fwy tueddol o ddarllen ac ymateb yn gadarnhaol i'r negeseuon yn y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg.

Y naill ffordd a'r llall, nid yw hyn o reidrwydd yn broblem, gan fod 'model' y prosiect yn ei hanfod yn ymwneud â chyflwyno'r *ddwy* ran hon (dim ond i gartrefi a gafodd Archwiliad yn ddiweddar yr anfonir y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg). Fodd bynnag, petai'r model yn cael ei newid, e.e. anfon Pecynnau Byw'n Ddi-fwg i gartrefi sydd heb gael Archwiliad yn ddiweddar, fe allai hynny gael goblygiadau i'r effeithiolrwydd cyffredinol o ran cael y canlyniadau a ddymunir.

4.5 Cymhariaeth ffafriol â mentrau Byw'n Ddi-fwg eraill.

Mae'r dull hwn yn cymharu'n ffafriol â'r rhai a ddefnyddiwyd mewn prosiectau Byw'n Ddi-fwg yn Lloegr hyd yn hyn, a hynny o ran cost-effeithiolrwydd a thystiolaeth o newid agweddau, gwybodaeth ac ymddygiad. Er enghraifft, roedd y prosiect "Smoke Free Sefton Homes" yn Lerpwl yn ddiweddar yn golygu dosbarthu taflenni 10,000 o gartrefi. Er nad yw'r prosiect hwn i'w gymharu'n uniongyrchol â'n prosiect ni, oherwydd bod y methodolegau'n wahanol, mae'n ddiddorol nodi bod 'cyfradd ymateb' i'w prosiect hwy - lle nad oedd ond 74 o gartrefi (0.7%) yn addo y byddai eu cartrefi'n dod yn rhai Di-fwg. [5]

5. Argymhellion

5.1 Rhannu a Throsglwyddo Data. Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rhannu manylion cysylltu mewn pryd mewn perthynas â chartrefi lle mae pobl yn ysmygu, a hynny rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub ac Atal Tân, gan gynnwys cytundeb Protocol Rhannu Data, arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a datrys unrhyw faterion technegol sy'n aros o ran mewnbynnu, dethol a throsglwyddo data i'r elusen yn dilyn Ymweliadau Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref.

5.2 Egluro'r Gyfradd Cyfranogiad. Gyda data mwy manwl gan y Gwasanaethau Tân ac Achub, bydd Atal Tân yn gallu adrodd ynghylch nifer y Pecynnau Byw'n Ddi-fwg a anfonir fel canran o nifer yr Archwiliadau a gynhelir a nifer y cartrefi lle mae pobl yn ysmygu. Bydd hyn yn egluro i ba raddau y mae diffyg caniatâd yn cael ei roi gan bobl mewn cartrefi lle mae pobl yn ysmygu yn effeithio ar gyfranogiad.

5.3 Dealltwriaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub o'r Prosiect. Efallai fod angen rhagor o gefnogaeth a hyfforddiant ar aelodau o staff y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n

[5] Taylor, J. 2008 *Smoke Free Homes Project Evaluation.* Lerpwl: GIG Sefton.

cynnal Archwiliadau er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn gallu cyfleu i'r cleientiaid pam y gofynnir iddynt roi caniatâd i rannu eu manylion ag Atal Tân er mwyn cymryd rhan yn y prosiect.

5.4 Cwestiynau'r Arolwg. Tra bydd methodoleg y ffôn a threfn cwestiynau'r arolwg yn aros yr un fath yn y camau gwerthuso pellach, bydd angen ailedrych ar eiriad rhai o'r cwestiynau, er mwyn sicrhau, lle bo modd, nad ydynt yn annog yr ymatebwyr i ganolbwyntio ar rannau diogelwch tân y prosiect. Er enghraifft, newid y cyflwyniad i'r arolwg i grybwyll ei fod yn cael ei gynnal ar ran Atal Tân Cymru *ac* ASH Cymru. Byddwn hefyd yn fwy eglur wrth annog yr ymatebwyr (lle bo angen) i ateb ynglŷn â'r deunyddiau Byw'n Ddi-fwg yn hytrach na'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr Archwiliad (gweler 4.4, uchod).

5.5 Adolygu ac Addasu'r Canlyniadau a'r Dangosyddion. Grŵp Llywio'r Prosiect i ailedrych ar y nodau, yr amcanion a'r canlyniadau a ddymunir o'r prosiect er mwyn diweddaru mesurau o lwyddiant a dangosyddion perfformiad penodol (e.e. canran y gostyngiad mewn ysmygu yng nghartrefi cyfranogwyr y prosiect), yng ngoleuni canfyddiadau'r cam peilot.

5.6 Ymestyn i Prosiect i rannau eraill o Gymru. Cam 2 a 3 (sef ymestyn y prosiect i ddwy ranbarth arall y Gwasanaethau Tân ac Achub) i ddechrau cyn gynted ag y bo modd, gan gymryd y dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod nifer fwy o gyfranogwyr a bod y deunyddiau'n cael eu hanfon allan a'r arolygon gwerthuso'n cael eu cynnal mewn da bryd.

5.7 Y Broses ar gyfer Gwerthuso Camau 2 a 3. Atal Tân i gynnal gwerthusiad o gyfranogwyr yng Ngham 2 a 3 gan ddefnyddio'r meddalwedd SNAP, a gwneud arolwg o sampl o gyfranogwyr, gan ddefnyddio dull samplo i'w gytuno arno gan Grŵp Llywio'r Prosiect.

5.8 Camau dilynol gydag Ymatebwyr Cam 1, 2 a 3. Grŵp Llywio'r Prosiect i gytuno ar broses o ailgysylltu â'r ymatebwyr a ddywedodd fod eu cartrefi'n 'Ddi-fwg' neu'n bwriadu gwneud eu cartrefi'n 'Ddi-fwg' – er mwyn canfod beth yw'r effaith *tymor hir* ar ymddygiad ysmygu yn y cartref ac er mwyn deall y ffactorau allweddol sy'n gweithio, o ran cefnogi neu danseilio'r bwriad hwn.

5.9 Casglu Tystiolaeth o Brosiectau Byw'n Ddi-fwg eraill. Casglu a dadansoddi canfyddiadau gwerthusiadau o fentrau Byw'n Ddi-fwg eraill ym Mhrydain er mwyn cymharu effeithlonrwydd dulliau gwahanol o'u cyflwyno a ph'un a oes cyfle i ymestyn y prosiect yng Nghymru i'w gyflwyno yn y lle cyntaf gan gyrff gwahanol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub (e.e. Ymwelwyr Iechyd, ayyb.)

5.10 Lledaenu Canfyddiadau'r Prosiect. Grŵp Llywio'r Prosiect i ddyfeisio a gweithredu cynllun i ledaenu canfyddiadau yr astudiaeth werthuso hon a'r astudiaeth sydd i ddod, a hynny er mwyn goleuo datblygiad mentrau i leihau risg yn y dyfodol a phendefyniadau ynglŷn â buddsoddiad cyhoeddus. Dylai'r cynulleidfaoedd gynnwys Cangen Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth y Cynulliad a'r Uned Ymchwil yn yr adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y lefelau uchaf yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r sefydliadau partner presennol neu sefydliadau posib eraill – yn enwedig rhai sydd â diddordeb yn y defnydd o dybaco a/neu ddiogelwch tân.

Atodiad:

B2948 ATAL TÂN CYMRU

YMCHWIL BYW'N DDI-FWG – HOLIADUR TERFYNOL

GOFYNNWCH I GAEL SIARAD Â'R ENW CYSWLLT

Pnawn da / Noswaith dda. Fy enw i ydi …… a dwi'n ffonio o Ymchwil Beaufort. Rydym ni'n cynnal arolwg byw a chyfrinachol ar ran Atal Tân Cymru, elusen diogelwch tân Cymru. Ddylai'r arolwg ddim cymryd fwy na 10-15 munud.

Bydd popeth ddywedwch chi'n cael ei drin yn gyfrinachol – bydd atebion pawb yn cael eu rhoi at ei gilydd – fydd eich enw chi ddim yn cael ei gysylltu ag unrhyw beth ddywedwch chi yn y cyfweliad.

Ad.1 Ydych chi'n cofio derbyn gwybodaeth am Fyw'n Ddi-fwg, trwy lythyr a thaflenni gan Atal Tân dros y misoedd diwethaf?

Ydw ➔ **EWCH I Ad.2**
Nac ydw ➔ **DIOLCHWCH A CHLOI**

Ddim yn gwybod / gwrthod dweud ➔ **DIOLCHWCH A CHLOI**

Ad.2 Wnaethoch chi ddarllen yr wybodaeth yn y llythyr a'r pecyn Byw'n Ddi-fwg?

DARLLENWCH ALLAN

Do – cael cip arno
Do – edrychais i arno'n eithaf manwl
Do – darllen drwyddo'n fanwl

} **EWCH I Ad.5**

Naddo ➔ **EWCH I Ad.3**

Ddim yn gwybod / gwrthod ➔ **EWCH I S3**

Ad.3 Wnaeth unrhyw un arall yn eich cartref ddarllen yr wybodaeth yn y pecyn Byw'n Ddi-fwg?

Do **GOFYNNWCH I GAEL SIARAD GYDAG EF/HI, NEU WNEUD APWYNTIAD I FFONIO'N ÔL. COFNODWCH ENW'R SAWL A GYFWELWYD OS NAD YR ENW CYSWLLT YDYW.**
Naddo ➔ **EWCH I Ad.4**

Ddim yn gwybod / gwrthod ➔ **EWCH I Ad.5**

GOFYNNWCH S4 OS MAI 'NADDO' YW'R ATEB I Ad.3

Ad.4 Allwch chi ddweud wrthyf fi pam na wnaethoch chi ddarllen yr wybodaeth yn y Pecyn Byw'n Ddi-fwg? **PROCIWCH** Unrhyw beth arall?
PEIDIWCH AG AWGRYMU DIM – COFNODWCH AIR AM AIR

_____
_____
_____

GOFYNNWCH Ad.5, OS MAI 'NA' YW'R ATEB EWCH I Ad.3

Ad.5 Rwy'n mynd i ddarllen allan rai dulliau y gellid eu defnyddio i adael ichi wybod am Fyw'n Ddi-fwg. Am bob un, pa mor debygol yw ichi gymryd sylw o'r hyn a ddywedir?

- Tebygol iawn
- Eithaf tebygol
- Annhebygol

1. Hysbysebion ar y teledu
2. Hysbysebion ar y radio
3. Gwybodaeth ar y we
4. Taflenni/cylchlythyrau trwy eich blwch llythyrau
5. Hysbysebion / gwybodaeth mewn papurau newydd cenedlaethol neu leol
6. Taflenni / posteri yn y feddygfa, canolfannau iechyd neu adeiladau cyhoeddus neu gymunedol eraill
7. Taflenni / posteri mewn digwyddiadau cyhoeddus / cymunedol lleol
8. Gan unigolion neu gynrychiolwyr sefydliadau yr ydych mewn cysylltiad â nhw eisoes (eich meddyg teulu, Help the Aged, Sefydliad y Merched, Home-Start, cymunedau ffydd, clybiau cymdeithasol neu chwaraeon ayyb)

GOFYNNWCH I BAWB

Ad.6 Ga' i wybod, ydych chi'n ysmygu?

Ydw
Nac ydw

OS MAI 'DO YW'R ATEB I Ad.2 – PARHEWCH Â'R CYFWELIAD
OS MAI 'NADDO / DDIM YN GWYBOD' I Ad.2 – DIOLCHWCH A CHLOI

_ _ _ \

C1 Allwch chi ddweud wrthyf fi, beth oedd y prif negeseuon yr ydych yn eu cofio o'r wybodaeth oedd yn y pecyn? **PROCIWCH** Unrhyw beth arall?

COFNODWCH AIR AM AIR

_____
_____
_____

C2 Allwch chi ddweud wrthyf fi beth ydych yn ei gofio oedd yn y pecyn? **PROCIWCH** Unrhyw beth arall?

COFNODWCH AIR AM AIR

_____
_____
_____

C3 Ydych chi, neu unrhyw un arall yn eich cartref, wedi gwneud un o'r canlynol? **DARLLENWCH ALLAN**

Darllen y daflen Byw'n Ddi-fwg oedd yn y pecyn
Darllen y daflen Her Iechyd Cymru oedd yn y pecyn
Arddangos y sticeri oedd yn y pecyn yn eich cartref
Arddangos y sticeri oedd yn y pecyn yn eich car
Cysylltu ag unrhyw un o'r asiantaethau y mae sôn amdanynt yn y pecyn □ **EWCH I C4**

Dim un

Ddim yn gwybod / gwrthod

GOFYNNWCH C4 OS GWNAETHANT ATEB 'CYSYLLTU AG UNRHYW ASIANTAETH ARALL' I C3

C4 Pa asiantaethau y gwnaethoch chi, neu unrhyw un arall yn eich cartref, gysylltu â nhw? **PROCIWCH** Unrhyw un arall?
PEIDIWCH AG AWGRYMU DIM – RHOWCH Y COD AM BOB UN Y CYFEIRIR ATO

Ash Cymru
Atal Tân Cymru
Dim Smygu Cymru
Her Iechyd Cymru
Gwasanaeth Tân
Diwrnod Dim Ysmygu
Arall (NODWCH YN BENODOL)

Ddim yn gwybod / gwrthod

TYNNWCH O'R RHESTR Y RHAI Y RHODDWYD COD WRTHYNT YN 4

C5 Ga' i wybod, a wnaethoch chi, neu unrhyw un arall yn eich cartref, gysylltu ag unrhyw un o'r asiantaethau hyn o ganlyniad i ddarllen yr wybodaeth oedd yn y Pecyn Byw'n Ddi-fwg?

DARLLENWCH ALLAN – RHOWCH Y COD AM BOB UN Y CYFEIRIR ATO

Ash Cymru
Atal Tân Cymru
Dim Smygu Cymru
Her Iechyd Cymru
Gwasanaeth Tân
Diwrnod Dim Ysmygu

Dim un

Ddim yn gwybod / gwrthod

GOFYNNWCH I BAWB

C6 Pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth yn y Pecyn Byw'n Ddi-fwg?

DARLLENWCH ALLAN

Defnyddiol iawn
Eithaf defnyddiol
Ddim yn ddefnyddiol iawn
Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
} **EWCH I C7**

Ddim yn gwybod / gwrthod ➔ **EWCH I C8**

PEIDIWCH Â GOFYN C7 OS MAI 'DDIM YN GWYBOD / GWRTHOD' YW'R ATEB I C6

C7 Pam ydych chi'n dweud hynny? **PROCIWCH** Unrhyw beth arall?

COFNODWCH AIR AM AIR

_____
_____
_____

GOFYNNWCH I BAWB

C8 Ydych hi, neu unrhyw un yn eich cartref wedi newid eu harferion ysmygu o ganlyniad i ddarllen yr wybodaeth yn y Pecyn Byw'n Ddi-fwg?

Do ➔ **EWCH I C9**
Naddo ➔ **EWCH I C11**

Ddim yn gwybod / gwrthod ➔ **EWCH I C11**

GOFYNNWCH Q9 OS MAI 'DO' YW'R ATEB I C8

C9 Pa newidiadau gafodd eu gwneud? **PROCIWCH** Unrhyw beth arall?

COFNODWCH AIR AM AIR

_____
_____
_____

GOFYNNWCH C10 OS MAI 'DO' YW'R ATEB I C8

C10 Rwyf nawr am ddarllen allan nifer o newidiadau a allai fod wedi digwydd yn eich cartref. Ar gyfer pob un, wnewch chi ddweud wrthyf fi ……..?

DARLLENWCH ALLAN

- Fe wnaethoch chi'r newid hwn o ganlyniad i ddarllen yr wybodaeth yn y pecyn
- Dydych chi ddim wedi gwneud y newid hwn eto
- Nid yw'n berthnasol gan ei fod eisoes yn cael ei wneud.

1. Newid yr adeg pryd mae rhywun yn ysmygu fel nad oes neb arall yn y tŷ
2. Newid yr adeg pryd mae rhywun yn ysmygu fel bod pobl eraill yn eu gwelyau
3. Newid y rhannau o'r tŷ lle mae rhywun yn ysmygu fel mai dim ond mewn rhai ystafelloedd y mae pobl yn ysmygu
4. Newid y rhannau o'r tŷ lle mae rhywun yn ysmygu fel eu bod yn nes at ffenestri agored
5. Gofalu bod pobl sy'n ysmygu yn mynd allan i ysmygu
6. Gofalu bod pobl sy'n ysmygu yn cadw eu sigaréts / baco y tu hwnt i afael plant
7. Gofalu nad yw pobl sy'n ysmygu yn cael eu sigaréts heb gadw golwg arnynt
8. Clirio'r blwch llwch wedi i rywun orffen ysmygu
9. Gofyn i ffrindiau beidio ag ysmygu pan ydynt yn y tŷ
10. Perswadio plant i beidio ag ysmygu

GOFYNNWCH I BAWB

C11 Ydych chi'n teimlo bod eich ymwybyddiaeth o'r canlynol wedi cynyddu neu aros yr un fath wedi ichi ddarllen yr wybodaeth yn y Pecyn Byw'n Ddi-fwg?

DARLLENWCH ALLAN

- Wedi cynyddu
- Wedi aros yr un fath

1. Effeithiau ysmygu ail-law ar iechyd
2. Effeithiau ysmygu ar y perygl o dân
3. Y manteision i iechyd o ganlyniad i ysmygu y tu allan
4. Sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu
5. Sefydliadau sy'n rhoi cynghorion am ddiogelwch tân

C12 Pa un o'r canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch cartref fel un di-fwg ai peidio? Mae bod yn ddi-fwg yn golygu nad oes ysmygu i'w gael yn yr un o'r ystafelloedd.

DARLLENWCH ALLAN

Yn byw'n ddi-fwg ar hyn o bryd
Yn bwriadu ei wneud yn ddi-fwg yn y dyfodol agos
Dim bwriad ei wneud yn ddi-fwg yn y dyfodol agos
Ddim yn gwybod / gwrthod

GOFYNNWCH C13 OS MAI 'YN DDI-FWG AR HYN O BRYD' NEU 'YN BWRIADU EI WNEUD YN DDI-FWG' I C12

C13 Beth oedd y PRIF beth wnaeth eich cymell i wneud / bwriadu gwneud eich cartref yn ddi-fwg?

PEIDIWCH Â PHROCIO – RHOWCH Y COD AM BOB UN Y CYFEIRIR ATO

Eich iechyd eich hun
Iechyd eich plant yn eich cartref
Iechyd oedolion eraill yn eich cartref
Iechyd anifeiliaid anwes
Diogelwch tân
Rhesymau cosmetig / aroglau ysmygu
Arall (NODWCH YN BENODOL)

Ddim yn gwybod / gwrthod

GOFYNNWCH I BAWB

C14 Ydych chi, neu unrhyw un arall yn eich cartref, yn ysmygu yn y car?

DARLLENWCH ALLAN

Ydym, ond dim ond ar ein pen ein hunain yn y car
Ydym, pan mae yna bobl eraill yn y car
Na – byth

Ddim yn gwybod / gwrthod

Nawr, rhai cwestiynau mwy cyffredinol amdanoch chi….

C15 Faint yw eich oedran yn benodol?
NODWCH YR UNION OEDRAN

_____

C16 COD GENDER

Gwryw
Benyw

C17 Allwch chi ddeud wrthyf fi beth yw swydd y sawl sy'n ennill y prif incwm yn y cartref?

(Y sawl sy'n ennill y prif incwm ydi'r aelod o'r cartref sydd â'r incwm mwyaf, boed o ganlyniad i waith, pensiwn, budd-daliadau, buddsoddiadau neu ffynhonnell arall. Gallai fod yn wryw neu'n fenyw.)

SYLWER: OS YW'R SAWL SY'N ENNILL Y PRIF INCWM WEDI YMDDEOL NEU WEDI EI GOFRESTRU'N DDI-WAITH, GOFYNNWCH BETH OEDD EI SWYDD FLAENOROL

DOSBARTH CYMDEITHASOL (Yn seiliedig ar incwm y prif enillydd)

ABC1
C2DE

C18 Ydi eich cartref ar rent neu ai chi sydd yn berchen arno?

Ar rent / dim rhent ➔ **EWCH I C19**

Yn berchen yn llwyr
Yn berchen gyda morgais

Ddim yn gwybod / gwrthod

EWCH I Q20

GOFYNNWCH C19 OS MAI 'AR RENT / DIM RHENT' YW'R ATEB I C18

C19 Ydych chi'n ei rentu gan:

DARLLENWCH ALLAN

Awdurdod lleol / cyngor
Cymdeithas tai
Landlord preifat
Preifat arall

Ddim yn gwybod / gwrthod

C20 Ac eithrio chi eich hun, allwch chi ddweud wrthyf fi faint o bobl sy'n byw yn eich cartref a beth yw eu hoedran?

COFNODWCH YR UNION OEDRAN AR GYFER PAWB YN Y CARTREF

PERSON 1 _____
PERSON 2 _____
PERSON 3 _____
PERSON 4 _____
PERSON 5 _____
PERSON 6 _____
PERSON 7 _____
PERSON 8 _____
PERSON 9 _____
PERSON 10 _____

C21 Ga' i wneud yn siŵr fod **NIFER Y BOBL YN C20** o bobl yn byw yn eich cartref?

Oes ➔ **EWCH I c22**

Nac oes ➔ **EWCH YN ÔL I C20, A MYND TRWY AELODAU'R CARTREF ETO**

C22 I gloi, fyddech chi'n fodlon cymryd rhan mewn ymchwil eto yn y dyfodol ar ran Atal Tân Cymru neu gan Atal Tân Cymru?

Byddwn
Na fyddwn

Ddim yn gwybod

DIOLCHWCH A CHLOI

Cefnogir gan